

Codiadau cyflog o fewn graddfeydd a thâl yn gysylltiedig â chyfraniadau

1 Rhagarweiniad

Nod y polisi hwn yw darparu dull gweithredu dealladwy ac ymarferol ar gyfer codiadau cyflog o fewn graddfeydd ac ar gyfer cyflog yn gysylltiedig â chyfraniadau er mwyn cydnabod cyfraniad unigol a chyfraniad gan dîm, ac i sicrhau tryloywder, tegwch a chydaddoldeb i bob aelod staff.

Mae Prifysgol Bangor eisiau nodi a chydabod pob unigolyn a grŵp ymysg y staff sy'n gwneud cyfraniad eithriadol (cyson neu unigryw) sy'n hybu nodau ac amcanion y Brifysgol, eu coleg, eu hysgol neu eu hadran, neu sy'n cyflawni her weithredol tymor byr.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod staff sydd wedi ei gynnwys dan gytundeb fframwaith y Brifysgol, a bydd yr egwyddorion cyffredinol yn berthnasol i raddfeydd athrawon prifysgol a chyffelyb.

2 Cyfleoedd cyfartal

Bwriedir i'r drefn ar gyfer codiadau cyflog ac ystyried taliadau yn gysylltiedig â chyfraniadau fod yn deg, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â pholisïau cyfleoedd cyfartal y Brifysgol.

Yn unol â hynny, caiff pob aelod staff ei drin yn deg ac yn gyfartal a chaiff penderfyniadau eu seilio ar asesiad o berfformiad unigol/tîm, gallu ac anghenion y Brifysgol, heb ystyried statws cyflogaeth neu statws contract ac amgylchiadau personol h.y. rhan amser, contract cyfnod penodol, seibiant gyrfa ac ati. Yn ychwanegol, bydd y Brifysgol yn monitro canlyniad codiadau cyflog a cheisiadau am daliadau'n gysylltiedig â chyfraniad. Bydd hefyd yn adolygu tueddiadau ac ystadegau er mwyn sicrhau bod y meini prawf sy'n sail ar gyfer y penderfyniadau a gymerir yn aros yn gyfiawnadwy yn wrthrychol ac yn gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal a gwahaniaethu.

3 Egwyddorion

Mae'r drefn yn glynu wrth yr egwyddorion isod:

- Dylai pob aelod staff gael ei dalu'n deg ac yn unol â'i gyfraniad, yn cynnwys am ddefnyddio sgiliau newydd ac am arbenigedd sydd wedi datblygu dros amser yn y swydd.

- Gyda chydysyniad yr ymgeisydd, caiff adran yr adolygiad datblygu perfformiad ar gyflawni nodau ac amcanion a gytunwyd arnynt ei defnyddio ar gyfer y broses o dâl yn gysylltiedig â chyfraniad.
- Dylai asesiad o gyfraniad fod yn gysylltiedig â'r canlynol mewn modd amlwg: amcanion perthnasol ac addas y Brifysgol, y coleg, ysgol neu adran, nodi llwyddiannau a chydabod galluoedd a gweithgareddau sy'n debygol o gyfrannu at lwyddiant y Brifysgol yn y dyfodol.
- Dylai rheolwyr sicrhau eu bod yn adolygu cyfraniadau eu holl aelodau staff pob blwyddyn, er mwyn cyflwyno pob achos sy'n cyd-fynd â'r meini prawf cydnabyddiaeth.
- Dylid ystyried y meini prawf ar gyfer asesu cyfraniad mewn modd teg a chyson a dylid hefyd ystyried y disgwyliadau sy'n rhesymol gan y swydd a chan ddeiliad y swydd.
- Dylid seilio dyfarniadau ar dystiolaeth wrthrychol a, lle bo'n addas, adnabod gwaith tîm a dinasyddiaeth dda.

4. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod staff sydd wedi ei gynnwys dan gytundeb fframwaith y Brifysgol, er y bydd yr egwyddorion cyffredinol hefyd yn berthnasol i raddfeydd athrawon prifysgol a graddfeydd cyffelyb.

I sicrhau cysondeb a'r cyfle mwyaf posibl i staff gael eu cydnabod, caiff codiadau dewisol neu godiadau yn gysylltiedig â chyfraniad a thaliadau unigryw eu hystyried gan yr is-bwyllgor taliadau.

5. Diffiniadau

5.1 Bydd **codiadau cyflog o fewn graddfeydd** yn dibynnu'n rhannol ar hyd gwasanaeth unigolyn, gan adlewyrchu profiad a sgiliau cynyddol yn y raddfa honno, ac yn dibynnu'n rhannol ar asesiad o'u cyfraniad. Byddai disgwyliad cyffredinol o godiad cyflog blynyddol nes cyrraedd brig y raddfa o ran cyfraniadau, yn amodol ar ddulliau sefydledig o ymdrin â phroblemau perfformiad. Fel rheol, caiff unigolion eu penodi ar waelod y raddfa ond gellir eu penodi yn uwch ar y raddfa os oes ganddynt y sgiliau a'r profiad perthnasol.

5.2 Rhoddir **codiadau ychwanegol** yn y raddfa gyflog arferol neu yn y raddfa cyfraniad a chânt eu defnyddio i gydnabod **cyfraniad rhagorol cyson** gan unigolyn sydd y tu hwnt i'r disgwyliadau arferol ar gyfer ei swydd, yng nghydestun y parhad a ddisgwyilir ar y lefel honno.

5.3 Caiff **taliadau unigryw** eu defnyddio i gydnabod **cyfraniad eithriadol unigol** gan unigolyn neu dîm sydd y tu hwnt i'r disgwyliadau arferol ar gyfer y swydd, yng nghyd-destun tasg neu broiect unigryw sy'n gyfyngedig ei natur.

6. Meini prawf ceisiadau a mathau o daliadau yn gysylltiedig â chyfraniad

Gall aelodau staff wneud cais drostynt eu hunain neu gall eu rheolwyr wneud cais drostynt. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos bod yr aelod staff dan sylw wedi gwneud cyfraniad sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y disgrifiad swydd ar gyfer y raddfa neu ar gyfer y proffil swydd perthnasol. Dylai ceisiadau ddangos sut y mae'r cyfraniad yn ymwneud â gwella ansawdd a/neu arloesi a/neu gynhyrchiant ac yn cefnogi cyflawniad yr amcanion strategol/lleol.

Os yw cyfraniad cyson a rhagorol wedi arwain at ddatblygiad y swydd e.e. mae'r swydd erbyn hyn yn gweddu'n well i broffil graddfa uwch, dylid gwneud cais am ailraddio neu ddyrchafu.

6.1 Tâl am gyfraniad cyson a rhagorol

Dylai'r aelod staff fod wedi gwneud cyfraniad rhagorol dros gyfnod o ddim llai na blwyddyn, gyda thystiolaeth o weithio'n barhaus ar y lefel honno. Gallai'r dystiolaeth gynnwys y canlynol, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain:

- Cyflawni amcanion hir dymor, a gytunwyd arnynt ac a nodwyd yn yr adolygiad datblygu perfformiad, i safon gyson ragorol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y Brifysgol, y coleg, yr ysgol neu'r adran.
- Darparu gwasanaeth o safon uchel dros ben sydd wedi cael effaith amlwg ar y gwasanaeth a ddarperir a/neu ar enw da'r Brifysgol, y coleg, yr ysgol neu'r adran.
- Llwyddiant eithriadol sy'n amlwg wedi arwain at well cyfraniad yn y raddfa bresennol:
- Cymryd cyfrifoldeb sylweddol ychwanegol yn rheolaidd, ond ar lefel sydd o fewn y raddfa bresennol.

Rhoddir codiad ychwanegol fel rheol i aelod staff sydd heb gyrraedd brig ei raddfa gyflog. Rhoddir codiad o un pwynt fel rheol i aelod staff sydd ar frig ei raddfa neu sydd eisoes ar bwynt ychwanegol dros y brig (ond nid y pwynt ychwanegol uchaf). Mewn achosion eithriadol, gellir rhoi codiad o fwy nag un pwynt.

Dylid dangos yn amlwg bod yr unigolyn wedi cynyddu ei gyfraniad at amcanion y Brifysgol, y coleg, yr ysgol neu'r adran yn rheolaidd. Wedi hynny, disgwylir yr un lefel o gyfraniad yn gyson gan yr aelod staff. Felly, ni fydd yr un dystiolaeth yn arwain at daliad cylchol neu daliad unigol ychwanegol.

Nid yw aelod staff sydd ar y pwynt uchaf yn gymwys i'w ystyried am godiad ychwanegol ar y raddfa honno. Fodd bynnag, os oes tystiolaeth o gyfraniad a fyddai'n cael ei gydnabod fel arall trwy godiadau ychwanegol, yna gall y rheolwr a'r aelod staff chwilio'n weithredol am opsiynau ar gyfer symud ymlaen. Gallai'r rhain gynnwys gwneud cais am ddyrchafiad, gwneud cais am swydd ar raddfa uwch, ystyried a ellir ailraddio'r swydd, neu ystyried secondiad i swydd arall neu faes gwaith arall er mwyn datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad i hybu datblygiad gyrfa.

Fel rheol, daw codiadau graddfa ychwanegol i rym ar 1 Ionawr pob blwyddyn. Gallai'r taliadau hyn ddod i rym ar ryw ddyddiad addas arall, yn unol â dewis cadeirydd yr is-bwyllgor taliadau.

6.2 Cyfraniad eithriadol unigryw (taliad unigol)

Fel rheol, bydd cyfraniad eithriadol yr aelod staff neu'r tîm yn ymwneud â phroject unigol neu dasg sy'n gyfyngedig ei natur. Gallai'r dystiolaeth gynnwys y canlynol, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain:

- Cyfrannu at ymdrin â digwyddiad eithriadol mewn modd effeithiol gan ddangos ymrwymiad eithriadol sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan aelod staff;
- Mynd i'r afael yn llwyddiannus a thasg neu ddigwyddiad annisgwyl a chymhleth.
- Dangos hyblygrwydd eithriadol a gyfrannodd yn uniongyrchol at gyflawni amcanion y Brifysgol, y coleg, yr ysgol neu'r adran. (Ni ddylid dehongli hyn fel gweithio oriau ychwanegol);
- Cyfrannu syniadau a arweiniodd at fwy o effeithiolrwydd, gwella ansawdd, arbed arian etc. ac a gyfrannodd at gyflawni amcanion y Brifysgol, y coleg, yr ysgol neu'r adran.
- Cwblhau tasg neu broject arwyddocaol cyn y dyddiad disgwyliedig, ac arbed adnoddau (ariannol a/neu staff) yr un pryd.
- Cyrraedd nodau neu gyflawni amcanion arbennig o heriol, e.e. goresgyn rhwystrau sylweddol i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau ar gyfer y dyddiad cwblhau a bennwyd.
- Os oes tystiolaeth amlwg o lwyddiant tîm, gellir enwebu pob aelod perthnasol o'r tîm trwy'r rheolwr atebol. Dylai'r achos roi manylion am natur, cymhlethdod a hyd y project, tasg neu ddigwyddiad a'r cyfraniad eithriadol a briodolir i bob aelod o'r tîm.

Rhoddir un taliad unigryw, amhensiynadwy am gyfraniad eithriadol unigol. Nid yw fel rheol yn addas gwneud ceisiadau am gydnabyddiaeth am gyfraniad eithriadol unigol am yr un rhesymau, neu am resymau tebyg mewn blynyddoedd dilynol ar gyfer yr un aelod staff. Byddai hyn fel rheol yn dynodi nad yw'r achos mwyach yn cyflawni'r meini prawf am gydnabyddiaeth a luniwyd i gydnabod cyfraniad eithriadol unigryw, yn hytrach mae'n cyflawni'r meini prawf ar gyfer rhagoriaeth

gyson. Gall yr is-bwyllgorau taliadau drosglwyddo achosion o'r fath i'w hystyried ar gyfer cydnabyddiaeth am ragoriaeth gyson.

6.3 Cydgrynhoi taliadau am gyfraniad eithriadol unigol

Mewn achos eithriadol o daliad unigol yn cael ei roi tair blynedd yn olynol, gwnaiff yr is-bwyllgor taliadau ystyried rhoi cydnabyddiaeth am ragoriaeth gyson yn hytrach na thrydydd taliad unigol.

7. Proses ymgeisio

Gwneir ceisiadau am gydnabyddiaeth am gyfraniad fel rheol trwy'r rheolwr atebol perthnasol, ar ôl iddo adolygu cyfraniadau pob aelod staff sy'n adrodd iddo, fel rheol yn ystod y broses o adolygu datblygiad perfformiad. Os yw aelod staff yn cyflwyno achos ar ei ran ei hun, bydd gofyn i'r rheolwr wirio cywirdeb y cais o ran y ffeithiau.

Fel rheol, caiff ceisiadau eu hanfon gan y rheolwr atebol addas at ddeon coleg/bennaeth y adran ar y ffurflen cydnabyddiaeth am gyfraniad. Ystyrir pob cais gan ddeon coleg/ bennaeth y adran a fydd yn penderfynu a yw'n addas ei argymhell i'r is-bwyllgor taliadau am gydnabyddiaeth. Bydd yr is-bwyllgor yn ystyried pob cais ac yn penderfynu ar bob achos, gan ystyried y gyllideb gyffredinol wrth wneud hynny.

Caiff pob penderfyniad, yn cynnwys y sail resymegol ar gyfer pob penderfyniad, ei nodi er mwyn adrodd yn ôl i'r ymgeiswyr ac er mwyn monitro'r broses. Bydd yr adran Adnoddau Dynol yn rhoi gwybod am ganlyniad y cais i bob ymgeisydd trwy'r deon coleg/ pennaeth y adran perthnasol.

Os yw cais wedi bod yn aflwyddiannus, neu yn achos aelod staff sydd wedi cael math arall o daliad na'r un a ofynnodd amdano, dylid rhoi eglurhad am y penderfyniad.

8. Is-bwyllgor taliadau

Caiff cylch gorchwyl yr is-bwyllgor taliadau ei ddiwygio i gynnwys ei gyfrifoldebau a'i awdurdod o ran y polisi hwn.

9. Ceisiadau carlam

Dan amgylchiadau a ystyrir yn hollol eithriadol ac annisgwyladwy, gellir cyflwyno ceisiadau i'r is-bwyllgor taliadau y tu hwnt i'r amserlen arferol. Mewn achosion o'r fath caiff y drefn safonol ei dilyn ond os nad yw amser yn caniatáu hynny neu

os nad yw'r amgylchiadau yn caniatáu hynny, cynhelir ymarfer ymgynghori electronig yn unol ag amserlen addas.

10. Monitro

Caiff data'n ymwneud â thâl yn gysylltiedig â chyfraniad eu casglu a'u hadolygu pob blwyddyn gan yr adran AD er mwyn monitro cyfleoedd cyfartal. Caiff atodiadau eu cynnwys hefyd mewn unrhyw archwiliadau tâl cyfartal a wneir gan y Brifysgol.

Caiff gwybodaeth a gesglir er mwyn monitro ei rhannu pob blwyddyn gyda'r undebau a gydnabyddir gan y Brifysgol a chynhelir ymgynghoriad er mwyn adolygu effeithiolrwydd y polisi hwn. Cyflwynir adroddiad llawn i'r grŵp tasg AD pob blwyddyn.

11. Amserlen

Cyhoeddir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i AD ar wefan y Brifysgol. Bydd hyn yn digwydd yn flynyddol fel rheol.

12. Cyfrinachedd

Er ei fod yn rhan o bolisi'r Brifysgol i gadw'r wybodaeth a roddir i'r is-bwyllgor taliadau a'r aelodau staff unigol dan sylw yn gyfrinachol, oherwydd y gofynion dan y Ddeddf Gwarchod Data 1998, gallai ymgeiswyr herio'r polisi a mynnu bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn cael ei datgelu.

13. Rheoli cofnodion

Caiff y ceisiadau o bob cylch o daliadau am gyfraniad eu cadw yn ffeil personol yr aelod staff ynghyd â'r llythyrau a anfonwyd yn nodi canlyniad y ceisiadau.